***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1843

# Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015

## RHAN 4

## CYFRANIADAU AC AD-DALIADAU AM DALIADAU UNIONGYRCHOL

**Datganiad o ddyfarniad – taliadau uniongyrchol**

**29.**—(1) Pan fo awdurdod lleol yn gwneud dyfarniad yn unol â'r Rheoliadau hyn ynglŷn â'r swm y mae'n rhesymol ymarferol i B ei gyfrannu fel cyfraniad neu ad-daliad tuag at gost y gofal a chymorth y mae taliadau uniongyrchol naill ai—

(a) yn cael eu cynnig i B am y tro cyntaf; neu

(b) eisoes yn cael eu talu i B, ond gwneir yn ofynnol am y tro cyntaf fod B yn gwneud cyfraniad neu ad-daliad,

rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu datganiad i B, sy'n nodi'r taliad y mae'n rhaid i B ei wneud.

(2) Ni chaiff yr awdurdod lleol wneud cyfraniad neu ad-daliad yn ofynnol gan B tan y dyddiad yr anfonir y datganiad at B.

(3) Ond unwaith y bydd datganiad wedi ei ddyroddi caiff awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol bod B yn gwneud cyfraniad neu ad-daliad mewn perthynas ag unrhyw daliadau a wnaed cyn dyddiad y datganiad.